

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 26ain Gorffennaf, 2018 at 2.00 pm

**PRESENT:** County Councillor P. Clarke (Chairman)  
County Councillor S. Woodhouse (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, D. Blakebrough, M. Powell, V. Smith, D. Dovey, A. Easson, R. Edwards, D. Evans, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, R. Harris, J. Higginson, S. Howarth, P. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, B. Strong, F. Taylor, A. Watts, A. Webb, K. Williams, L. Dymock, M. Feakins, M. Groucutt, R. John, L. Jones, M. Lane, P. Pavia, J. Pratt, R. Roden, T. Thomas, J. Treharne and J. Watkins

### OFFICERS IN ATTENDANCE:

Paul Matthews	Chief Executive
Kellie Beirne	Deputy Chief Executive
Peter Davies	Chief Officer, Resources
Nicola Perry	Senior Democracy Officer
Sheila Parker	Deputy Head of Legal Services
Ian Saunders	Head of Tourism, Leisure, Culture and Youth

### APOLOGIES:

County Councillors G. Howard, D. Jones, S. Jones, J. Becker, L. Brown and A. Davies

#### **2. Datganiadau o Fuddiant**

Datganwyd buddiant nad yw'n rhagfarnu gan y Cynghorydd Sirol V. Smith fel aelod o Gymdeithas Tai Sir Fynwy.

#### **3. Chairman's announcement and receipt of petitions**

Darllenodd y Cynghorydd Sirol R. Greenland ddatganiad ynghylch polisi dodrefn stryd y Cyngor ac eglurodd bod grwpiau anabledd wedi bod yn llobio'r Cyngor ers rhai blynnyddoedd, a'n bod wedi derbyn 57 o gwynion am rwystrau yn y briffordd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cadarnhaodd fod taliadau wedi'u cyflwyno er mwyn talu am weinyddu'r polisi ond derbyniwyd ei fod yn gyfnod anodd ac felly mae wedi gofyn i swyddogion beidio â chasglu'r taliadau. Byddai trwyddedau'n parhau i gael eu gosod, i ganiatáu rheoli rhwystrau ar y briffordd. Bydd y Cabinet yn cyfarfod yn yr Hydref i dynnu'r ffioedd yn ôl yn ffurfiol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol D. Blakebrough ddeiseb o dros 1400 o lofnodion yn gofyn i'r Cyngor ailystyried ei benderfyniad i gael gwared ar y gwasanaeth bws 65.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sirol R. Roden ddeiseb ar ran trigolion lleol ynghylch llif y traffig a diogelwch cerddwyr ar Heol Henffordd, Trefynwy.

#### **4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Dim.

#### **5. To confirm the minutes of the meetings of County Council:**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 26ain Gorffennaf, 2018 at 2.00 pm

#### 5.1. 21st June 2018

Cafodd cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

#### 5.2. 6th July 2018

Cafodd cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

#### **6. To note the minutes of the Democratic Services Committee meetings:**

##### 6.1. 23rd April 2018

Nodwyd.

##### 6.2. 4th June 2018

Nodwyd.

#### **7. To note the minutes of the Audit Committee 24th May 2018**

Nodwyd.

#### **8. REPORTS OF CHIEF OFFICER, ENTERPRISE**

##### **8.1. PRESENTATION TO COUNCIL: STOCK TRANSFER - THE FIRST 10 YEARS**

##### 8.1. CYFLWYNIAD I'R CYNGOR TROSGWLWYDDO STOC - Y 10 MLYNEDD GYNTAF

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr. J. Keegan o Gymdeithas Tai Sir Fynwy a oedd yn bresennol i gyflwyno diweddariad 10 mlynedd i'r Cyngor.

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- Mae gan bob datblygiad amryw o eiddo ynddynt, yn seiliedig ar alw yn yr ardal.
- Mae swyddogion Cymdeithas Tai Sir Fynwy yn ymroddedig i unigedd cymdeithasol, a fyddai'n dod ag asiantaethau eraill i mewn i sicrhau rhyngweithio â'r gymuned leol.
- O ran materion ward penodol, awgrymodd y Cadeirydd y dylid trefnu cyfarfod ar wahân i drafod y rheiny.
- Yn dilyn ad-drefnu diweddar, bydd Mr. Keegan yn sicrhau bod swyddogion tai yn ysgrifennu at y priod Aelodau fel ffordd o gyflwyno'u hunain.
- Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â'r diffyg datblygu yng ngogledd y Sir, cadarnhawyd bod diffyg argaeledd yn fater cyffredinol.
- Mae parcio ar ddatblygiadau hŷn yn dal i fod yn broblem, ac mae parcio cymunedol yn angenrheidiol oherwydd bod mwy o berchenogaeth ceir.
- O ran yr incwm o baneli solar, awgrymwyd y dylid darparu ffurflen canran dychweliadau incwm ar gyfer y preswylwyr. Mae cynllun busnes o Gymdeithas Tai Sir Fynwy yn nodi y bydd yn cymryd 20 mlynedd i dalu am y paneli.
- Mae Mr. Keegan yn eistedd ar lawer o grwpiau iechyd ac yn darparu cyngor ar dai trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Croesawodd ragor o wybodaeth am grwpiau o'r fath.
- Myfyriodd yr Aelodau ar brisiau tai, a'r gyfradd enillion i bris o 8:1.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Keegan am ei gyflwyniad a'i bresenoldeb.

##### **8.2. GOVERNANCE ARRANGEMENTS FOR PROPOSED ALTERNATIVE**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 26ain Gorffennaf, 2018 at 2.00 pm**

### **DELIVERY MODEL FOR TOURISM, CULTURE, LEISURE AND YOUTH**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet adroddiad ar y ddogfennaeth ddrafft ar gyfer y trefniadau a'r fframwaith llywodraethu arfaethedig ar gyfer cwmnïau grŵp MonLife sy'n ffurfio'r model Cyflenwi Amgen Arfaethedig ar gyfer Twristiaeth, Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Ieuenctid.

Roedd yr Aelod Cabinet yn dymuno ychwanegu argymhelliad:

*Bod un aelod o'r grŵp rheoli ac un aelod o'r wrthblaid yn cael eu penodi i fwrdd yr Elusen a'r Cwmni Masnachu, a sefydlu panel bach i gynnwys y Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid i wneud y penodiadau hynny.*

Codwyd y pryderon canlynol:

Roedd ychydig o bryder ynghylch strwythur llywodraethu cwmni 'Teckal', o gofio'r natur hollbwysig a bod arian y trethdalwyr yn rhan o hyn felly ystyriwyd ei fod yn annerbyniol.

Ceisiwyd eglurhad pellach ynghylch erthyglau cymdeithasu.

Eglurwyd bod y trefniadau llywodraethu'n cyfeirio at ffurfiad a phrosesau'r bwrdd cysylltiedig. Byddai dogfennaeth gyfreithiol yn cael ei dwyn ymlaen i graffu arni a'i chymeradwyo'n derfynol ym mis Hydref 2018.

Cadarnhaodd Arweinydd yr Wrthblaid, hyd nes y byddai gan y gwrthbleidiau rôl yn y cwmni 'Teckal' na fyddent yn ei gefnogi.

Cytunodd y Prif Swyddog Adnoddau y dylid cynnwys manylion y gwaith o graffu ar y trefniadau llywodraethu mewn gohebiaeth yn y dyfodol.

Cadarnhaodd Cadeirydd Y Pwyllgor Dethol dros yr Economi a Datblygu y byddai cyfarfod craffu yn cael ei gynnal ym mis Medi 2018. Disgwylid i hwn fod yn sesiwn drwy'r dydd, a fydd yn agored i bob Aelod.

Cadarnhaodd y swyddog arweiniol ar gyfer y Model Cyflenwi Amgen nad yw gwasanaethau'n gynaliadwy yn eu ffurf bresennol, ac mae adran fawr yn yr achos busnes ynghylch sut y bwriedir cynnal gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Dylid gweld manteision yn gynnar yn y model newydd. Roedd rhwystredigaethau'n codi nad oedd hyn wedi'i nodi'n glir yn yr adroddiad.

Byddai'r ffioedd a'r taliadau yn cael eu hamlinellu'n glir yn y ddogfen derfynol.

**Ar ôl cael ei roi i bleidlais, penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhelliad:**

**O blaid: 28**

**Yn erbyn: 9**

**I gymeradwyo'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer grŵp cwmnïau MonLife, er mwyn cychwyn proses recriwtio gysgodol Cyfarwyddwyr y Cwmni. Mae'r camau hyn cyn ystyriaeth derfynol y Cyngor ym mis Hydref 2018 i**

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 26ain Gorffennaf, 2018 at 2.00 pm

gymeradwyo'r dogfennau trosglwyddo a'r cytundeb ac wedyn i weithredu gweithrediad y cwmni ym mis Rhagfyr 2018.

*Bod un aelod o'r grŵp rheoli ac un aelod o'r wrthblaid yn cael eu penodi i fwrdd yr Elusen a'r Cwmni Masnachu, a sefydlu panel bach i gynnwys y Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid i wneud y penodiadau hynny.*

## **9. REPORT OF CHIEF OFFICER, RESOURCES**

### **9.1. AUDIT COMMITTEE ANNUAL REPORT**

9.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO  
Derbyniodd y Cyngor adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. P. White am ei waith parhaus gyda'r Pwyllgor Archwilio.

Penderfynodd y Cyngor dderbyn yr adroddiad.

## **10. REPORTS OF THE CHIEF OFFICER SOCIAL CARE, SAFEGUARDING AND HEALTH**

### **10.1. SAFEGUARDING EVALUATIVE REPORT APRIL - OCTOBER 2017**

#### **10.1. ADRODDIAD GWERTHUSO DIOGELU EBRILL - HYDREF 2017**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor, gyda'r diben canlynol:

- Gwerthuso cynnydd prif flaenoriaethau diogelu Cyngor Sir Fynwy yn ystod 2017/18, gan ddefnyddio mesurau a nodwyd i dynnu sylw at gynnydd, nodi risgiau a nodi camau gweithredu a blaenoriaethau clir ar gyfer datblygu ymhellach.
- Rhoi gwybod i'r Aelodau am effeithiolrwydd diogelu yn Sir Fynwy a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi nodau'r Cyngor o ran amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu niweidio a'u cam-drin.
- Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y safonau ym mholisi diogelu corfforaethol y cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch y duedd gynyddol bod plant yn teimlo'n anniogel. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau i Blant nad oedd yn gwestiwn a ofynnwyd i'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd ond a oedd yn canolbwyntio ar grŵp penodol o blant. Mae llawer o fesurau sy'n adrodd stori gyferbyniol, a gobeithir y bydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyflwyno mewn sgysiau gyda'u gweithwyr cymdeithasol unigol.

Mynegwyd rhwystredigaeth nad oedd yr adroddiad wedi'i gwblhau, a bod meysydd sylweddol i'w gwella.

**Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 26ain Gorffennaf, 2018 at 2.00 pm**

- **I dderbyn a chefnogi'r Adroddiad Gwerthuso Diogelu**
- **I nodi'r risgiau diogelu allweddol a chymeradwyo'r camau gwella blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Diogelu'r Awdurdod Cyfan.**

### **10.2. DIRECTOR OF SOCIAL SERVICES ANNUAL REPORT 2017/18**

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/2018.

Cytunodd y Prif Weithredwr i gymryd unrhyw gwestiynau a'u cyfeirio at y Prif Swyddog blaenorol. Mae Prif Swyddog presennol Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodlon â'r adroddiad.

Cydnabuwyd bod rhagor o waith i'w wneud o ran recriwtio gofalwyr maeth.

Ceisiwyd sicrwydd ynghylch y data yn yr adroddiad, yn enwedig ymatebion plant, a bod yn y chwarter isaf. Derbyniodd y Prif Weithredwr yr her fel oedd yn briodol a disgwyliid gweld gwelliant yn y cyfnod adrodd nesaf.

Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc sylw at bwysigrwydd adroddiadau cyflawn yn dod gerbron pwyllgorau craffu, yn hytrach nag adroddiadau anghyflawn drafft.

### **Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r argymhellion:**

- **Bod y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r dadansoddiad o berfformiad ac effaith gwasanaethau lles, gofal cymdeithasol ac iechyd oedolion a phlant yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.**
- **Bod y Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo blaenoriaethau 2018/19 ar gyfer gwella gofal cymdeithasol ac iechyd.**

## **11. Rhestr o Gynigion**

### **11.1. From County Councillor A. Easson**

Tynnwyd y cynnig yn ôl.

### **12. From County Councillor D. Batrouni**

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

- Roedd adroddiad Symudedd Cymdeithasol Llywodraeth y DU wedi amlygu bod ardaloedd cefnog yn methu plant tlotach;
- Y ceir ardaloedd o amddifadedd difrifol yn y Sir a bod y Cyngor hwn yn benderfynol o sicrhau nad yw pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn cael eu gadael ar ôl;
- Un o'r ffactorau mwyaf o ran dylanwadu ar ddyfodol plant yw lefel yr incwm fesul aelwyd;
- Mae gan Sir Fynwy un o'r incymau isaf ar gyfer trigolion sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Fynwy.

Felly, bydd y Cyngor hwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn a ydynt yn ystyried astudiaeth beilot o Bolisi Incwm Sylfaenol cyffredinol fel Llywodraeth yr Alban, ac, os felly, ein bod yn cyflwyno achos cryf dros Sir Fynwy fel un o'r ardaloedd peilot prawf.

Eiliodd y Cyngorydd Sirol Harris y cynnig.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 26ain Gorffennaf, 2018 at 2.00 pm

Yn ystod y drafodaeth:

Roedd y Cyngorydd John yn cydnabod bod pocedi o amddifadedd yn Sir Fynwy sy'n gryn her ond fe wnaeth amlygu materion yn ymwneud â'r cynnig. Ychwanegodd fod delio â thlodi yn dechrau gydag addysg, ac nad yw'n ymwneud â dosbarthu arian am ddim.

Pwysleisiwyd bod y cynnig yn gofyn i ni roi caniatâd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, ac y dylid cefnogi hynny.

Yr oedd siom ynghylch diffyg cefnogaeth yr Aelod Cabinet, a diffyg cydnabyddiaeth nad yw'r cynnig hwn yn ymwneud ag addysg yn unig.

Roedd pryderon y gallai hyn amddifadu'r tlawd o'r cymorth sydd ei angen yn fawr.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid:	15
Yn erbyn	22

Trechwyd y cynnig.

**The meeting ended at 5.35 pm**